**EITEM: 8**

**PANEL GWEITHREDOL**
**AWDURDOD GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**28 Gorffennaf 2008**

**ADOLYGIAD CYFANSODDIADOL**

**Adroddiad i Colin Everett**
**Clerc yr Awdurdod**

## Diben yr Adroddiad

**1.** Cymeradwyo proses a chylch gorchwyl ar gyfer adolygiad cyfansoddiadol i'w gwblhau a'i gyflwyno i'r Awdurdod Tân ac Achub llawn.

## Y Cefndir

**2.** Cytunodd yr Awdurdod Tân ac Achub, mewn cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Mehefin, 2008, y dylid cwblhau adolygiad cyfansoddiadol - penderfynodd yr Awdurdod Tân ystyried:

- adolygu maint, gweithrediad a chyfansoddiad y Panel Gweithredol;
- datblygu Pwyllgor Archwilio ar wahân a fyddai'n cynnwys yr aelodau hynny nad oeddynt yn aelodau o'r Panel Gweithredol;
- creu grwpiau 'Gorchwyl a Gorffen' i ymdrin â phynciau/penderfyniadau penodol; gallai eu haelodau adrodd naill ai i'r Panel Gweithredol neu'n uniongyrchol i'r Awdurdod Tân ac Achub; ac
- a allai awdurdodau lleol gynorthwyo'r Awdurdod Tân ac Achub gyda'r gwaith craffu

**3.** Diben yr adolygiad cyfansoddiadol yw adolygu'r materion cyfansoddiadol a drafodwyd eisoes gan yr Awdurdod, a mynd i'r afael ag argymhellion adroddiadau *Swyddfa Archwilio Cymru, Adolygiad o Drefniadau Craffu Awdurdodau Tân ac Achub Cymru* a *Craffu ac Ymgysylltiad Aelodau'r Awdurdodau Tân ac Achub – Arfer Da* a gyflwynwyd i'r cyfarfod ar 16 Mehefin, 2008.

## Gwybodaeth

**4.** Mae'n ofynnol i'r Panel Gweithredol lunio Cylch Gorchwyl a phroses ar gyfer cynnal yr adolygiad cyfansoddiadol.

**5.** Mae'r Cylch Gorchwyl ar gyfer adolygiad cyfansoddiadol yn codi o drafodaethau a phenderfyniadau'r Awdurdod Tân yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Mehefin, 2008 pan drafodwyd adroddiadau'r Clerc am benodi aelodau a sicrhau cydbwysedd gwleidyddol, ac adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru a nodir yn 3 uchod.

**6.** O'r trafodaethau hyn, dylai'r Cylch Gorchwyl gynnwys:-

1. pennu rôl, swyddogaeth a maint y Panel Gweithredol;
2. penodi Pwyllgor Archwilio;
3. cyflwyno trefniadau craffu ac ystyried a all Pwyllgor Archwilio, gyda rôl ehangach, gyflawni swyddogaeth trosolwg a chraffu, gyda chymorth grwpiau gorchwyl a gorffen o bosibl, a gomisiynir i archwilio materion penodol, o bwys.

**7.** O'r trafodaethau hyn, dylai'r Cylch Gorchwyl gynnwys:-

- nifer aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub llawn; a'r
- cydbwysedd gwleidyddol.

**8.** O gofio'r drafodaeth flaenorol yn yr Awdurdod Tân ynglŷn â'r materion hyn, ynghyd â chynnwys ac argymhellion adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru, disgwylir y bydd y dewisiadau a gyflwynir i'r Awdurdod Tân ac Achub yn:-

- diffinio rôl a swyddogaeth y Panel Gweithredol yn fanylach;
- adolygu a lleihau maint y Panel Gweithredol sydd, ar hyn o bryd, yn cyfateb i 50% o holl aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub;
- argymell penodi Pwyllgor Archwilio yn seiliedig ar y canllawiau cenedlaethol a gaiff eu hargymell;
- ystyried a all Pwyllgor Archwilio sy'n cyfuno gwaith archwilio yng nghyswllt llywodraethu, cyllid ac adnoddau, rheoli risg a pherfformiad sefydliadol a gweithredol, gyflawni rôl trosolwg a chraffu; a
- cyflwyno cynigion i sicrhau bod gan holl aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub ran lawn yn y gwaith o lywodraethu a chynnal busnes y sefydliad, yn enwedig yr aelodau hynny nad ydynt wedi'u penodi i'r Panel Gweithredol.

**9.** Mae'n ofynnol i'r Panel Gweithredol hefyd lunio proses ar gyfer cynnal yr

adolygiad cyfansoddiadol. Mae angen i'r Panel gofio (1) mai dim ond yr Awdurdod Tân ac Achub llawn sydd â'r awdurdod i wneud newidiadau cyfansoddiadol (2) y dylai'r adolygiad fod yn drylwyr er mwyn rhoi cyfle i'r holl aelodau a'r uwch swyddogion gyfrannu (3) bod rôl, swyddogaeth a maint y Panel Gweithredol wedi'i gynnwys yn y Cylch Gorchwyl ac, felly, ni fyddai'n briodol i'r Panel Gweithredol gynnal yr adolygiad.

**10.** Dyma'r dewisiadau o ran llunio proses ar gyfer yr adolygiad:-

1. grŵp adolygu cyfansoddiadol (gorchwyl a gorffen) sy'n cynnwys aelodau gweithredol ac anweithredol i werthuso a chyflwyno dewisiadau sydd wedi'u harfarnu'n llawn, a'u hargymhellion, i'r Awdurdod Tân ac Achub llawn; neu
2. y Clerc a'r Prif Awdurdod Tân i ymchwilio i'r dewisiadau ar gyfer newid cyfansoddiadol eu gwerthuso ac estyn gwahoddiad i'r holl aelodau roi sylwadau ar y dewisiadau, drwy gyfrwng arolwg, a chyflwyno adroddiad i'r Awdurdod Tân ac Achub llawn am y dewisiadau, ar ôl eu harfarnu'n llawn.

O gofio pwysigrwydd yr adolygiad a'r Cylch Gorchwyl penodol, a chanllawiau Swyddfa Archwilio Cymru, byddai'n fuddiol ac yn ymarferol cwblhau'r adolygiad cyn pen tri mis. Byddai Swyddfa Archwilio Cymru yn cael gwahoddiad i gyfrannu at yr adolygiad.

## Argymhellion

**11.** Argymhellir y dylai aelodau -

- gymeradwyo'r Cylch Gorchwyl ar gyfer yr adolygiad cyfansoddiadol;
- gosod amserlen o dri mis i gwblhau'r adolygiad; a
- llunio proses ar gyfer cynnal yr adolygiad.